CYNGOR CYMDEITHAS
LLANNERCH-Y-MEDD
COMMUNITY COUNCIL

**27.10.22**
**7 pm**

# CYFARFOD LLAWN/ *FULL MEETING*
## *Cyfarfod Hybrid - ZOOM*
## *A Caffi'r Stesion*
## *COFNODION*

| | |
|---|---|
| **1** | **Croeso ac Ymddiheuriadau**<br>**Presennol:** DAW (Cadeirydd);JAJ; RJ; JOJ; RY; EY;AR;IW;GW<br>**Ymddiheuriadau:** TAJ:EO;LLMH;DP;<br>**Yn mynychu:** SWR<br>Croesawyd Ceri Thomas i'w chyfarfod cyntaf yn Blismones Gymunedol ardal Amlwch. Adroddodd am broblemau ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n poeni'r gymdeithas yn gyfredol. Dywedodd bod yr Heddlu yn ymwybodol o'r sefyllfa ac yn cynnal ymweliadau cartref i ddatrys y broblem. |
| **2** | **Datgan Diddordeb**<br>Ni ddatganwyd unrhyw ddiddordeb. |
| **3** | **Cofnodion 29.922**<br>a) Cyflwynwyd a derbyniwyd cofnodion 29 Medi fel rhai cywir (AR/JAJ)<br>b) Materion yn Codi<br>**Cyflog Clerc** – adroddod y Clerc ei bod wedi trafod yr amryfusedd gyda'r Cyfrifydd a'r Archwiliwr Mewnol. Mae bellach yn disgwyl cadarnhad o'r gor-daliad cyflog a bydd ffigwr terfynol yng nghyfarfod mis Tachwedd.<br>**Parcio yn y Stesion** – llythyrau wedi ei hanfon at y ddau berchennog. Clerc i holi Adran Priffyrdd CSYM am arweiniad ar sut i sefydlu ardal parcio trwy ganiatad.<br>Diweddarwyd y Cynllun Gweithredu i greu ferswin 27.10.22. |


Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com

| | |
|---|---|
| 4 | **Materion Trwy'r Gadair**<br><br>**IW:** problem baw ci ar hyd y Stryd Fawr - Clerc i gysylltu â CSYM. Atgoffwyd yr aelodau bod rhaid cael manylion perchnogion y cwn cyn gall CSYM weithredu'n effeithiol.<br><br>**GW:** Bin baw ci ger groeslon Bryn Garth yn llawn sbwriel. Clerc i ofyn i CSYM am fin sbwriel yn yr ardal yma a gofyn eto am ail-osod bin sbwriel ger Bryncir.<br><br>Cytunwyd i fwrw mlaen gyda threfniadau arferol gosod Coeden Nadolig i'r pentref.<br><br>Holi am swper Dolig i'r Cyngor. Nodwyd nad yw Carolyn yn cynnig Swper Dolig eleni. Cytunwyd i'r Clerc holi am Lastra/Dinorben a Ring Rhosgoch yn y drefn yna a chynnal cyn Nadolig eleni.<br><br>**JAJ:** ffens angen sylw yn CPD. Clerc i holi CSYM eto<br><br>**AR:** Cyfeiriodd at gyflwr gwael y pafin ger y Bull. Nodwyd mai dim ond medr a hanner o'r ffordd sydd o fewn cyfrifoldeb CSYM. Nodwyd hefyd mai CSYM sy'n berchen y fflatiau islaw i;'r Bull. Clerc i holi ymhellach.<br><br>Modur du wedi parcio heb MOT na Threth yn y Walk. Clerc i gysylltu â John Roberts Swyddog Parcio CSYM a chynnwys yr MG gyda 'trailer' sydd wedi parcio ar faes parcio'r Cyngor ger Capel Tabernacl ers tro.<br><br>**DW:** Llinellau melyn - neges i law gan CSYM yn gofyn cadarnhad o'r ardaloedd sydd wedi eu cytuno eisoes. Cytunwyd i gadw at yr ardaloedd - Clerc i gadarnhau.<br><br>Cytundeb Tori Gwair - trafodwyd yr angen i weithredu'r broses tendro. Cytunwyd i wneud hyn er mwyn sicrhau tryloywder a chyfle cyfartal. JAJ/JAJ/RJ/DW i gyfarfod am 7pm 8 Tachwedd yn y Caffi i adolygu'r cytundeb presennol a chytuno'r broses tendro. Adrodd nôl i gyfarfod mis Tachwedd. |
| 5 | **Materion Cyllidol a Thaliadau**<br><br>**Taliadau Misol**<br>**Gwariant ers cyfarfod Medi**<br>• HJT Electricals – diweddaru swits trydan yn CPD 268.82<br>• Carolyn Owen Caffi Stesion – 'hot dogs' i'r plant Gweithgaredd i blant y pentref – ad-daliad gan Heddlu . 60.00<br>• Carolyn Owen - 'hot dogs' Diwrnod Hwyl yr Haf – cefnogi Grwp Llan 150.00<br>• Bwrdd Dwr – CPD 15.43<br>- Lawnt Fowlio 41.80<br>- Fynwent Gyhoeddus 15.88 |


Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com

| | |
|---|---|
| | **Biliau cyfredol**:<br>Cyflog Clerc – ail chwarter Gorff/Awst/Medi<br>491.89 X 3 = 1475.67<br>Zoom X 3 = 43.17 1518.84<br>Cyflog Clerc – mis Hydref (cytunwyd i dalu'n fisol o hyn ymlaen)<br>£491.89 + 1 Zoom £14.39 506.28<br><br>**Sefyllfa gyfredol**<br>Cyfrif Cyfredol: £14166.38<br>Cyfrif wrth gefn £ 1436.17 |
| **6.** | **Materion Cynllunio**<br>Dim i law |
| **7.** | **Materion Safleoedd**<br><br>• **Cae Gofeb/Ysgol Haearn -** cais drwy law'r Clerc i noddi diwrnod Groto Siôn Corn yn y pentref. Cytunwyd i roi £150 o gronfa Ysgol Haearn i sicrhau pryd am ddim i bob plentyn yn ystod y noson.<br>• **Unedau Tan y Foel -** mynegwyd pryder am gyflwr Uned 2. Wayne Feehily yn disgwyl pris gan Gwmni To cyn gall y gwaith trydan a phlymio ddechrau. Clerc i holi am gontractwr clirio traeniau. Clerc yn nodi bod y bil dwr yn uchel iawn - wrthi'n datrys gyda'r Bwrdd Dwr. |
| **7** | **Unrhyw Fater Arall**<br><br>**Trenau yn yr Ardd Gymunedol** - Clerc yn nodi bod prosiect gan Menter Môn yn awyddus i helpu adnewyddu. Derbyniwyd y cynnig yn unfrydol - Clerc i weithredu.<br><br>**Hysbysfwrdd Glan Menai a Rhybudd Parcio Capel Tabernacl** - Clerc i wirio prisiau gyda chwmnïau lleol.<br><br>*Daeth y cyfarfod i ben am 8.50* |


Mrs Sydna Roberts sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383